**Dinas a Sir Abertawe**

# Cofnodion Cyfarfod y Pwyllgor Datblygu a Chyflwyno Polisi Diogelu

**Ystafell Bwyllgor 5, Neuadd y Ddinas, Abertawe**

**Dydd Mercher, 20 Medi 2017 am 4.30 pm**

**Yn Bresennol**: Y Cynghorydd C R Doyle (Cadeirydd) oedd yn llywyddu

| **Y Cynghorydd(wyr)** | **Y Cynghorydd(wyr)** | **Y Cynghorydd(wyr)** |
|---|---|---|
| S J Gallagher | P R Hood-Williams | L James |
| E J King | K M Roberts | |

**Swyddog(ion)**

| | |
|---|---|
| Simon Jones | Arweinydd Strategol y Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant, Gwasanaethau Cymdeithasol |
| Alex Williams | Pennaeth y Gwasanaethau i Oedolion |
| Jeremy Parkhouse | Swyddog y Gwasanaethau Democrataidd |

**Ymddiheuriadau am absenoldeb**
Y Cynghorydd(wyr): J P Curtice, M Sykes a/ac G J Tanner

---

**15 Datgeliadau o fuddiannau personol a rhagfarnol.**

Yn unol â'r Côd Ymddygiad a fabwysiadwyd gan Ddinas a Sir Abertawe, ni ddatganwyd unrhyw fuddiannau.

**16 Cofnodion.**

**Penderfynwyd** cymeradwyo cofnodion y Pwyllgor Cyflwyno a Datblygu Polisi Diogelu a gynhaliwyd ar 16 Awst 2017 fel cofnod cywir.

**17 Model Gwasanaeth Trosgynnol y Gwasanaethau i Oedolion.**

Darparodd Bennaeth y Gwasanaethau i Oedolion adroddiad a rhoddodd gyflwyniad ar Fodel Gwasanaeth Trosgynnol y Gwasanaethau i Oedolion, a gyflwynwyd i'r cabinet ar 15 Mehefin 2017.

Fel rhan o broses yr Adolygiad Comisiynu Corfforaethol, eglurwyd y cytunwyd i gynnal y pedwar adolygiad yn y Gwasanaethau i Oedolion fel a ganlyn:

- Gofal yn y Cartref
- Gofal Preswyl i Bobl Hŷn
- Gwasanaethau Dydd i Bobl Hŷn

- Llety a chefnogaeth yn ystod y dydd i bobl ag Anableddau Dysgu, Anableddau Corfforol a phryderon iechyd meddwl.

Er mwyn bodloni gofynion Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) a meddu ar weledigaeth glir, datblygwyd model gwasanaeth a gweledigaeth gytunedig. Roedd y model yn seiliedig ar 6 phrif egwyddor, fel a ganlyn:

- Atal yn well
- Help cynnar, gwell
- Ymagwedd newydd at asesu
- Gwell cost effeithiolrwydd
- Gweithio gyda'n gilydd yn well
- Cadw pobl yn ddiogel

Dylai'r egwyddorion hyn gael eu gwreiddio yn yr holl waith a wneir gan y Gwasanaethau i Oedolion. Er mwyn cydymffurfio â Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru), datblygwyd pedair haen o gefnogaeth.

Dan y model, byddai'r Gwasanaethau i Oedolion yn ceisio cefnogi pobl ar yr haen isaf posib i gynnal annibyniaeth a lleihau dibyniaeth ar gefnogaeth statudol. Ychwanegwyd y byddai cyflwyno'r model yn llwyddiannus yn dibynnu ar weithio ar y cyd ar draws y cyngor a chyda phartneriaid allanol.

Darparwyd y model yn Atodiad 1. Y cam cyntaf o roi'r model ar waith oedd cyflwyno canlyniad yr Adolygiad Comisiynu Gofal Cartref.

Roedd y trafodaethau'n ymwneud â'r canlynol: -

- Y broses ymgynghori;
- Cyflwyno'r model i sefydliadau allanol;
- Goblygiadau ariannol y model a'r angen i gyflwyno ymagwedd wahanol;
- Ymatebion sy'n gyffredinol gadarnhaol a dderbyniwyd gan bartneriaid allanol;
- Sut roedd y model wedi dilyn egwyddorion a chanllawiau'r statud;
- Asesiadau poblogaeth a dulliau gweithio cynaliadwy;
- Amserlen y newidiadau sy'n cael eu cyflwyno;
- Gwasanaethau a ddarperir i oedolion ifanc anabl;
- Sut roedd y model yn cyd-fynd ag awdurdodau lleol eraill a Bae'r Gorllewin;
- Dulliau asesu gwahanol a thargedu gwelliannau;
- Y ffocws ar gadw annibyniaeth unigolion a chaniatáu iddynt aros gartref.

**Penderfynwyd** nodi cynnwys yr adroddiad a'r cyflwyniad.

## 18 Contractau yn ôl y galw/cyflenwi.

Cyflwynodd Pennaeth y Gwasanaethau i Oedolion adroddiad a oedd yn ceisio cytundeb ar yr ymagwedd orau er mwyn casglu barn am ddefnyddio contractau sero oriau/wrth gefn, mewn pryd ar gyfer yr eitem agenda a drefnwyd ar gyfer cyfarfod PDChP mis Rhagfyr.

Ychwanegwyd bod swyddogion wedi ceisio cyngor gan AD ynghylch yr ymagwedd orau at sicrhau bod gan y PDChP yr wybodaeth angenrheidiol a hefyd fod staff wedi'u diogelu'n effeithiol.  Yn gyffredinol, defnyddiwyd y rhan fwyaf o staff i gyflenwi ar gyfer swyddi gradd 5 a 6 rheng-flaen cymharol gyffredin, a oedd yn hanfodol yn ystod absenoldebau staff parhaol.

Roedd AD felly wedi dweud na fyddai'n briodol i gynnal trafodaeth â staff ar y lefel hon mewn fforwm cyhoeddus, oherwydd gallai gwybodaeth bersonol gael ei datgelu a gallai rhai aelodau o staff deimlo dan fygythiad gan y fath drafodaeth mewn fforwm agored mawr.   Cadarnhawyd nad oedd gan unrhyw aelodau o staff gontractau sero oriau a bod yr awdurdod yn defnyddio contractau wrth gefn mewnol yn unig.

Trafododd y pwyllgor yr opsiynau sydd ar gael, a oedd yn cynnwys cynghorwyr yn cwrdd â staff a dosbarthu holiadur i staff.  Dywedodd aelodau y dylid ystyried yn ofalus nifer y staff sydd eu hangen i asesu barn staff a'r cwestiynau sy'n cael eu holi yn yr holiadur.  Gofynnodd y pwyllgor hefyd am fwy o wybodaeth gefndir, gan gynnwys faint o staff y Gwasanaethau Cymdeithasol oedd yn rhan o hyn, pa mor aml roeddent yn gweithio a'r oriau a weithiwyd.

**Penderfynwyd** ar y canlynol: -

1) Bydd Pennaeth y Gwasanaethau i Oedolion yn rhoi'r diweddaraf i'r pwyllgor ynghylch faint o staff y Gwasanaethau Cymdeithasol oedd yn rhan o hyn, pa mor aml roeddent yn gweithio a'r oriau a weithiwyd;
2) Bydd y pwyllgor yn trafod y mater ymhellach yn y cyfarfod nesaf a drefnir.

## 19 Cynllun Gwaith 2017-2018.

Cyflwynodd y Cadeirydd y cynllun gwaith ar gyfer 2017-2018.

Esboniodd fod angen i'r cyfarfod pwyllgor ddechrau ar amser amgen oherwydd gwrthdaro â'r Panel Craffu Perfformiad Ysgolion.  Ystyriodd y pwyllgor yr opsiynau sydd ar gael.

**Penderfynwyd** y byddai'r cyfarfod nesaf a drefnir ar gyfer 18 Hydref 2017 yn cychwyn am 5.00pm, yn amodol ar argaeledd swyddogion.

Daeth y cyfarfod I ben am 5.50 pm

**Cadeirydd**